| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | CYNGOR SIR |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Chwefror 2025 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Awdur yr adroddiad** | Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Cyllideb y Cyngor 2025/26 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn nodi'r cynigion i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor bennu cyllideb fantoledig ac ymarferol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a phennu lefel Treth y Cyngor sy'n deillio o hynny er mwyn gallu anfon biliau at breswylwyr.

2.2 Mae'n ddyletswydd statudol ar Bennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) i adrodd i'r Cyngor Llawn, ar adeg ystyried y gyllideb a gosod Treth y Cyngor, ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn.

2.3 Gofynnir i Aelodau nodi effaith y Setliad Dros Dro a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2025/26, yn cynnwys lefel Treth y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cefnogi'r cynigion a amlinellir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28 (Atodiad 1), a fanylir arnynt yn Adran 4, fel yr argymhellwyd gan y Cabinet er mwyn gosod cyllideb ar gyfer 2025/26.

3.2 Cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog i Dreth y Cyngor o 5.29% ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor a chynnydd o 0.71% ar gyfer ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Gyda'i gilydd mae hyn yn gynnydd arfaethedig o 6.00% (paragraff 4.5).

3.3 Rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Bennaeth Cyllid ac Archwilio, mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol Cyllid, i addasu'r defnydd o arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500,000 os ceir symudiad rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gosod Treth y Cyngor yn amserol.

3.4 Bod y Cyngor yn cefnogi'r strategaeth i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn fel y nodir ym mharagraff 4.6.

3.5 Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les cyffredinol a geir yn Adran 7.

# 4. Manylion yr adroddiad

**4.1 Setliad Dros Dro 2025/26 ar gyfer Llywodraeth Leol (Atodiad 2)**

4.1.1 Derbyniodd y Cyngor y Setliad Dros Dro ar gyfer 2024/25 ar 11 Rhagfyr 2024, a oedd yn gynnydd o £14.427 miliwn neu 7% mewn arian parod o gymharu â lefel y cyllid a gafwyd ddechrau 2024-25. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio tablau fel bod modd cymharu lefelau cyllid 2024/25 a 2025/26 ar draws cynghorau Cymru. Mae canran cynnydd Sir Ddinbych yn 4.6%, sy'n is na'r gymhariaeth mewn arian parod a geir uchod oherwydd bod cyllid ychwanegol i gwrdd â chostau cyflogau a phensiynau wedi'i ddarparu yn ystod y flwyddyn a Llywodraeth Cymru wedi cynnwys hynny yn y gymhariaeth a ddefnyddir ar gyfer 2024/25. Mae rhagor o fanylion ynghylch y setliad dros dro yn Atodiad 2.

4.1.2 Mae cynnydd Sir Ddinbych yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru o 4.3% ac mae'n dilyn cynnydd yn nifer y disgyblion a data prydau ysgol am ddim a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid i ysgolion. Mae cynnydd yn y ddwy set ddata yma yn arwain at fwy o alw ar wasanaethau.

4.1.3 Mae'r cynnydd yn y setliad yn uwch na'r rhagdybiaeth a nodwyd yn yr adroddiadau ar y Strategaeth a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Aelodau yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Er ei fod yn gadarnhaol ac yn cael ei groesawu, nid yw'n datrys yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor wth osod cyllideb fantoledig yn 2025/26, a fydd yn dal yn gofyn am gyfuniad o arbedion a chynnydd yn Nhreth y Cyngor.

## 4.2 Gosod Cyllideb 2025/26 – Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26-2027/28 (Atodiad 1)

4.2.1 Mae’r Cyngor, fel pob cyngor arall, yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol wrth osod cyllidebau mantoledig, a hynny ar raddfa nas gwelwyd o’r blaen. Mae’r amgylchedd economaidd a gwleidyddol tymor canolig y mae’r Cyngor yn gweithredu ynddo, fel pob cyngor arall, yn dal yn ansicr iawn ac felly mae’n anodd gwneud rhagolygon cywir ynghylch amcanestyniadau cyllidebol.

4.2.2 Mae’r galw am wasanaethau gan ein cymunedau yn dal yn cynyddu ac mae natur yr anghenion hefyd wedi mynd yn fwy cymhleth mewn meysydd fel Addysg a Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Tra bod y prif gyfraddau chwyddiant wedi lleihau, mae’r chwyddiant y mae’r Cyngor yn destun iddo yn parhau i gael effaith drwy gostau cynyddol darparu gwasanaethau. Mae’r pwysau o ran cost yn cynnwys dyfarniadau cyflog cenedlaethol a chynnydd yng nghymhlethdod gwasanaethau sy’n seiliedig ar alw ym maes gofal cymdeithasol plant ac oedolion y mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i’w darparu ac sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Mae hyn wedyn yn cynyddu gofynion cyllidebol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

4.2.3 Mae oddeutu 75% o gyllideb (net) y Cyngor yn cael ei ariannu gan setliad gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid yw’r cyllid gan y llywodraeth yn cyd-fynd â’r galw am wasanaethau na’r cynnydd yn y costau. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyfreithiol i fantoli cyllidebau ac mae gwneud hynny wedi golygu penderfyniadau anodd fel cynyddu Treth y Cyngor a lleihau rhai gwasanaethau.

4.2.4 Mae’r cynigion i fantoli cyllideb 2025/26 wedi’u nodi yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn Atodiad 1.

## 4.3 Pwysau (Atodiad 3)

4.3.1 Mae’r pwysau arfaethedig ar y gyllideb, sydd wedi’i gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 (Atodiad 1), wedi’i grynhoi mewn manylder yn Atodiad 3 ynghyd â’r risgiau cysylltiedig a sut mae’r risgiau hynny wedi cael sylw yn y gyllideb.

4.3.2 Mae'r pwysau wedi bod yn destun adroddiadau rheolaidd i Aelodau drwy gydol y flwyddyn ariannol, ac yn dod i £23.854 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i 8.8% o gyllideb 2024/25 a'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r pwysau fod yn uwch nag £20 miliwn. Byddai angen setliad ariannol o 11.9% gan y llywodraeth i gwrdd â'r holl bwysau hyn.

4.2.3 Cyfeiriodd Datganiad Hydref Llywodraeth y DU at newidiadau i gyfraddau a throthwyon cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 1 Ebrill 2025. Bydd y cynnydd yn y cyfraniadau yn effeithio ar gost y gweithwyr y mae'r Cyngor yn eu cyflogi'n uniongyrchol yn ogystal â chael effaith anuniongyrchol drwy gynnydd yng nghostau cyflenwyr, yn enwedig cost gofal a gomisiynir gan ddarparwyr gofal. Mae'r cynnydd yng nghostau uniongyrchol cyfraniadau cyflogwyr yn sicr ac wedi'i gynnwys ym mhwysau'r Cyngor ar gyfer 2025/26 ar £4.4 miliwn. Mae darpariaethau hefyd wedi'u gwneud ar gyfer costau uwch ym maes gofal cymdeithasol wedi'i gomisiynu. Mae yna ansicrwydd o hyd o ran cyllid ar gyfer y pwysau yma gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2025/26 yn dilyn asesiad o gost gweithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gwybod beth yw'r sefyllfa o ran cyllid i gwrdd â'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr tan ar ôl i ni bennu cyllideb 2025/26.

**4.4 Arbedion (Atodiad 4)**

4.4.1 Mae ein diweddariadau ariannol tymor canolig a adroddwyd i bwyllgorau amrywiol yn ystod y flwyddyn (yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig) wedi nodi bod angen dull o ganfod arbedion a buddsoddi mewn prosiectau trawsnewid er mwyn gosod cyllidebau mantoledig yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. I gyflawni arbedion yn 2025/26 mae canrannau targed ar gyfer lleihau cyllidebau wedi'u cyhoeddi ac mae gwasanaethau wedi bod yn gweithio tuag at gyrraedd eu targed ochr yn ochr â chydbwyso'r effaith ar wasanaethau, y mae llawer ohonynt yn statudol. Cafodd cynigion cynnar ar gyfer arbedion eu cynnwys mewn adroddiad diweddaru i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2024.

4.4.2 Mae 'arbedion' yn derm 'cyffredinol' ar gyfer y ffyrdd gwahanol y gellir lleihau cyllideb y Cyngor. Gall categorïau arbedion gynnwys arbedion effeithlonrwydd, cynyddu incwm yn unol â'r polisi ffioedd a thaliadau, arbedion yn sgil prosiectau trawsnewid a lleihau gwasanaethau.

4.4.3 Mae’r arbedion arfaethedig i’w cynnwys yng nghyllideb 2025/26 wedi’u rhestru fesul categori yn Atodiad 4 ac yn dod i gyfanswm o £4.170 miliwn. Oherwydd bod y setliad gan y llywodraeth yn well na’r disgwyl, mae’r cynigion o ran arbedion yn canolbwyntio ar gategorïau effeithlonrwydd, incwm a phrosiectau trawsnewid, gyda llai o ffocws ar y cynigion i leihau gwasanaethau. Mae’r cynigion i leihau gwasanaethau yn rhai sydd naill ai wedi’u cyflawni’n barod yn ystod y flwyddyn neu’n rhai sydd wedi’u datblygu at i bwynt sy’n golygu mai’r peth gorau i’w wneud yw bwrw ymlaen â nhw.

4.4.4 O ystyried y bydd yr heriau ariannol sy’n wynebu’r Cyngor yn parhau i’r tymor canolig, mae llawer o gynigion arbedion, yn cynnwys sawl prosiect trawsnewid sydd wedi’i sefydlu eleni, yn dal yn cael eu datblygu i ddarparu arbedion yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhai o’r rhain wedi’u rhestr ar ddiwedd Atodiad 4 ac wedi’u cynnwys er gwybodaeth.

4.4.5 Ymhellach i hyn, cynigir gohirio rhai o’r cynigion arbedion a gyflwynwyd ac unwaith eto, i wneud pethau’n glir, mae’r rhain wedi’u rhestru er gwybodaeth ar ddiwedd Atodiad 4. Mae hyn yn bennaf oherwydd pryderon ynghylch effaith lleihau’r gyllideb ar ddarparu gwasanaethau. Mae hyn ar ben effaith y toriadau yn 2024/25. Mae yna hefyd gynigion yn cael eu gohirio oherwydd nad oes modd eu cyflawni ar hyn o bryd, ond efallai y bydd yr amgylchiadau’n newid yn y dyfodol.

4.4.6 Wrth ddatblygu’r cynigion ar gyfer y gyllideb, sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn, mae llawer o drafodaethau wedi’u cynnal gyda’r Aelodau yn ystod sesiynau briffio a gweithdai rheolaidd ar y gyllideb. Cafodd y rhestr lawn o gynigion sy’n cael eu hystyried eu trafod gan y Cyngor llawn ym mis Tachwedd. Yn dilyn pryderon gan Aelodau, mae’r cynigion isod wedi’u diystyru:

- Lleihau’r gwasanaeth gorfodi cynllunio, sy’n wasanaeth wedi’i effeithio gan swyddi gweigion
- Adolygiad o waith cynnal a chadw dros y gaeaf – llwybrau blaenoriaeth

**4.5 Treth y Cyngor (Atodiad 5 ar gyfer dadansoddiad hydeimledd Treth y Cyngor)**

4.5.1 Yn seiliedig ar y gofyniad cyllidebol ychwanegol terfynol o £23.825 miliwn, mae angen cynnydd o 5.29% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer gwasanaethau’r Cyngor a 0.71% ar gyfer y cynnydd yn ardoll i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol o 6.00% ac yn darparu arenillion ychwanegol o £5.257 miliwn yn 2025/26.

4.5.2 Mae’r cynnydd ar gyfer gwasanaethau’r Cyngor ynghyd â’r ardoll tân yn dod i gynnydd cyfartalog o £100.73 y flwyddyn ac yn dod â’r cyfanswm ar gyfer eiddo Band D i £1,779.48 (£1.94 yr wythnos).

4.5.3 Ar 5 Medi 2023 yn ystod cyfarfod o’r Cyngor, cymeradwywyd polisi Premiwm ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi ar gyfer 2024/25 a 2025/26. Mae’r taliadau a gytunwyd arnynt ar gyfer 1 Ebrill 2025 ymlaen yn 150% yn uwch na’r ffi Treth y Cyngor safonol ar gyfer pob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor (wedi bod yn wag ers llai na 5 mlynedd), gyda 50% ychwanegol ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag a heb ddodrefn ers 5 mlynedd neu fwy. Mae effeithiolrwydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn barod ar gyfer datblygu’r polisi ar gyfer 2026/27, o fewn yr amserlen sydd wedi’i chytuno arni gan y Cabinet ar 22 Hydref.

4.5.4 Petai’r Cyngor yn gosod ei gyllideb heb arbedion (fel yr amlinellir yn Atodiad 4), yna byddai angen cynyddu Treth y Cyngor oddeutu 11.85% er mwyn gosod cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26.

**4.6 Cronfeydd Wrth Gefn (Atodiad 6)**

4.6.1 Mae’r cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi yn dod i £5.6 miliwn. Y drefn bresennol yw cadw isafswm yn y cronfeydd wrth gefn er mwyn cwrdd ag unrhyw gost neu ddigwyddiad annisgwyl y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Mae hon yn gronfa na fydd y Cyngor yn bwriadu ei gwario, a byddai’n annoeth cynllunio i’w defnyddio. Petai angen defnyddio’r gronfa yna byddai angen cynllun i’w hail-lenwi i’r lefel flaenorol. Fel yr eglurir yn Atodiad 6 – Cronfeydd wrth gefn, y nod yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yw cynyddu lefel y cronfeydd heb eu clustnodi yn y tymor canolig, gan fod cyllideb refeniw net y Cyngor wedi cynyddu (oherwydd lefelau uchel o chwyddiant) yn ystod y blynyddoedd diwethaf a gwerth y cronfeydd heb eu clustnodi yn cael ei erydu. O ystyried y bydd y gyllideb net yn cynyddu eto yn 2025/26, cynigir cynnwys pwysau o £0.5 miliwn i gyfrannu at gronfeydd heb eu clustnodi i gynnal cyfran y cronfeydd heb eu clustnodi i gyllideb net.

4.6.2 Mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, sydd wedi’u rhoi o’r neilltu at ddibenion penodol. Mae defnydd rhai ohonynt wedi’i gyfyngu gan, er enghraifft, amodau a thelerau grant os ydynt wedi dod o ffynonellau ariannol y llywodraeth. Mae gwasanaethau hefyd yn defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i reoli eu cyllidebau ac maent yn cael eu hadolygu’n rheolaidd fel rhan o’r broses o fonitro’r gyllideb. Mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a gedwir yn ganolog

ac mae'n briodol ystyried yr angen i ddefnyddio'r rhain yn ofalus i gynorthwyi'r Cyngor i osod cyllidebau blynyddol fel y nodir yn Atodiad 6.

4.6.3 Dim ond unwaith gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn, ac felly nid yw dibynnu arnynt yn gynaliadwy. Dylid defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant am amser cyfyngedig neu wariant untro, yn hytrach na gwariant cylchol. Y strategaeth ar gyfer defnyddio arian wrth gefn felly yw lleihau'r defnydd o arian wrth gefn wrth osod cyllidebau ar gyfer y dyfodol gymaint â phosibl a'r bwriad yw peidio â defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli cyllideb 2025/26.

**4.7 Ysgolion**

4.7.1 Bydd ysgolion yn gweld cynnydd o 5.91% yn eu cyllid yn 2025/26. Mae hyn yn cynnwys yr holl gynnydd a nodir yn adran 4.3 yr adroddiad ar gyfer cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ac ati.

4.7.2 Mae cyllidebau ysgolion a chyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo yn £89 miliwn ar y funud, ac yn cyfrif am 33% o gyllideb y Cyngor, felly hon yw'r gyllideb fwyaf. O ystyried graddfa'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor wrth osod cyllidebau mantoledig yn y tymor canolig, ni ellir eithrio ysgolion rhag dod o hyd i arbedion a lleihau eu gwariant. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyfathrebu'n rheolaidd gydag ysgolion ynghylch ei gyllideb, drwy ddiweddariadau rheolaidd yn Fforwm Cyllidebau Ysgolion a chyfarfodydd gyda phenaethiaid. Mae ysgolion wedi cael gwybod y dylent ddisgwyl gostyngiad yn eu cyllid o 3-5% ar ôl cyllid chwyddiannol ar ddechrau flwyddyn ariannol pam oedd strategaeth cyllideb 2025/26 yn cael ei llunio.

4.7.3 Mae ysgolion a chyllidebau ysgolion dan bwysau yn sgil lefelau uwch o chwyddiant, cefnogi dysgwyr drwy effaith barhaus y pandemig, newidiadau deddfwriaethol i gefnogi dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol a chwricwlwm newydd sydd oll wedi cynyddu anghenion, gofynion a llwyth gwaith ysgolion. Rhagwelir y bydd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn sydd gan ysgolion yn negyddol ar ddiwedd 2024/25. O ystyried y pwysau ar ysgolion a'r setliad gwell gan y llywodraeth, y cynnig yw peidio â lleihau cyllideb ysgolion fel y gwnaeth y Cyngor er mwyn gosod cyllideb 2024/25. Felly bydd holl bwysau chwyddiannol ysgolion yn cael eu hariannu heb leihau cyllidebau (ac eithrio demograffeg).

**4.8 Crynodeb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig – 2025/26 i 2027/28**

4.8.1 Mae Atodiad 1 hefyd yn nodi penawdau'r amcanestyniadau ariannol ar gyfer 2026/27 a 2027/28. Mae'r rhagdybiaeth ariannu a ddefnyddir yn seiliedig ar

gynyddu Treth y Cyngor 5.5% ar gyfer y ddwy flynedd a, heb unrhyw arwydd o gyllid yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru, mae canran gymedrol o 1% wedi'i chynnwys ar gyfer y ddwy flynedd. Mae rhagolygon pwysau wedi'u cynnwys ar gyfer cyflogau a chwyddiant prisiau, demograffeg a chynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol, gan arwain at ddiffyg o £13 miliwn yn y cyllid yn 2026/27 a £10 miliwn yn 2027/28. Y diffyg dros y ddwy flynedd yw £24 miliwn. I roi pethau mewn cyd-destun, mae hynny'n cyfateb i 9% o'r gyllideb bresennol (mae cyllideb 2024/ 25 yn £271 miliwn). Felly mae'r her ariannol yn parhau i'r dyfodol, a bydd ar y Cyngor angen parhau â'i ddull strategol i ddarparu gwasanaethau o fewn y cyllid sydd ar gael drwy ei raglen drawsnewid. Mae'r rhaglen drawsnewid yn targedu casgliad o newidiadau arwyddocaol bob blwyddyn, sydd â chefnogaeth gorfforaethol, fel bod modd bancio'r arbedion hyn ymlaen llaw gan leihau ac, yn y pen draw, osgoi'r gofyniad am doriadau fesul gwasanaeth er mwyn gosod cyllideb fantoledig bob blwyddyn. Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhestr o'r prosiectau trawsnewid sy'n cael eu datblygu ac a fydd yn cael effaith ar gyllidebau 2026/27 a 2027/28. Mae ymgysylltiad pellach ynghylch y rhaglen drawsnewid yn yr arfaeth, a bydd yn cynnwys sesiynau briffio mewnol a chyfathrebu allanol drwy wefan y Cyngor.

4.8.2 Mae cynlluniau gwario presennol y llywodraeth yn nodi y bydd dychweliad i gylchoedd cyllideb tynnach ar ôl 2025/26. Mae hynny'n awgrymu toriadau amser real yn ystod blynyddoedd nesaf y senedd yma. Mae Llywodraeth y DU yn cynllunio adolygiad gwariant 3 blynedd yn ystod hanner cyntaf 2025. Mae rhagolygon cynnar o ofynion cyllidebol y Cyngor yn 2026/27 a 2027/28 yn awgrymu y bydd y pwysau yn dal yn uchel.

4.8.3 Mae cyllid tymor canolig gan y llywodraeth yn dal yn ansicr, ond mae yna obaith y bydd setliadau aml-flwyddyn yn cynorthwyo gwaith cynllunio yn y tymor canolig. Mae cyllideb 2025/26 yn darparu cyfle ac yn rhoi amser i ni symud y rhaglen drawsnewid yn ei blaen er mwyn i waith trawsnewid gwasanaethau ddod â'r arbedion sydd eu hangen i fantoli cyllidebau yn y tymor canolig yn hytrach na gwneud toriadau i wasanaethau. Felly mae'n angenrheidiol ein bod ni'n parhau i fwrw ymlaen â'r rhaglen drawsnewid yn gyflym.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau i barhau i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaethau, ond bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried rhagolygon ariannol y dyfodol ac edrych yn realistig ar yr hyn y gellir ei wireddu gyda'r cyllid sydd ar gael.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Fel y nodir yn yr adroddiad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae gosod cyllidebau blynyddol bellach yn broses fwy esblygol na digwyddiad untro ym mis Ionawr neu Chwefror. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer y gyllideb yn debyg ac yn esblygu ochr yn ochr â'r cynigion i arbed arian.

7.2 Caiff Asesiad o'r Effaith ar Les llawn ei ddatblygu ar gyfer pob cynnig sy'n cael effaith sylweddol er mwyn helpu i ddeall effaith cwtogi'r gwasanaeth ac i ddatblygu mesurau lliniaru posibl.

7.3 Caiff pob asesiad ei goladu a'i adolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad i amlygu unrhyw thema a phatrwm sy'n dod i'r amlwg er mwyn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Cabinet a'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o'r nodau lles. Bydd hefyd yn edrych ar p'un a oedd yr arbedion yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig penodol. Mae'r rhain wedi'u coladu i ffurfio Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol ynghylch effaith y mesurau lleihau cyllideb angenrheidiol (Atodiad 7). Dylid nodi bod yr Asesiad o'r Effaith ar Les hwn yn canolbwyntio ar gydgasgliad lefel uchel o fesurau lleihau cyllideb cyfunol, ac mae'n adlewyrchu cynigion arbed arian o flynyddoedd blaenorol a bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i gynigion gael eu mireinio.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Cabinet, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor Craffu Perfformiad, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, yng nghyfarfodydd Briffio'r Cabinet, gan Arweinwyr Grŵp ac yng nghyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'n ddyletswydd statudol ar Bennaeth Cyllid ac Archwilio (Swyddog Adran 151) i adrodd i'r Cyngor Llawn, ar adeg ystyried y gyllideb a gosod Treth y Cyngor, ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ariannol. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn wrth wneud penderfyniadau ynghylch ei gyllideb.

2.1 Mae'r Cyngor, ynghyd â phob Cyngor arall yng Nghymru, yn parhau i wynebu heriau ariannol digynsail. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion ar gyfer gosod cyllideb fantoledig yn 2025/26 gan fabwysiadu dull doeth. Er bod y setliad gan Lywodraeth Cymru yn well na'r disgwyl, mae'r rhagolwg tymor canolig ar gyfer 2026/27 a 2027/28 yn dal yn un heriol ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol i hynny wrth wneud penderfyniadau i osod cyllideb 2025/26.

9.3 Mae pwysau costau wedi'u cynnwys yn y gyllideb sy'n cydnabod ac yn gwella'r pwysau gwasanaeth yn ystod y flwyddyn a'r pwysau a cymaint â phosibl er mwyn datblygu cadernid. Mae'r rhain wedi'u hamcangyfrif yn seiliedig ar ragolygon o'r galw a chostau diweddaraf ac felly ystyriwyd i fod yn rhesymol o ystyried anghenion gwariant gwasanaethau statudol yn 2025/26 a'r cyd-destun ariannol ar gyfer gosod y gyllideb.

9.4 Mae'r cynigion ar gyfer cyllideb 2025/26 yn cynnwys lefel o amcangyfrifon ariannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch effaith digwyddiadau economaidd ar y Cyngor. Ar ôl ystyried y cyllid sydd ei angen ar wasanaethau a'r cynigion arbed arian sydd wedi'u cyflwyno, rwyf yn fodlon eu bod nhw'n eithaf cadarn. Mae'n amlwg, fodd

bynnag, bod risgiau sylweddol yn parhau o fewn cynigion cyllidebol 2025/26 (fel y nodir yn adran 10 yr adroddiad hwn).

9.5 Yn ystod 2024/25 rydym ni wedi bod yn adrodd ar gyflawniad arbedion a wnaethpwyd yn ystod gosod cyllideb 2024/25 drwy'r 'Traciwr Arbedion' a gyflwynir yn rheolaidd i'r Cabinet. Mae'r rhan fwyaf o'r arbedion naill wedi'u gwneud neu ar y trywydd cywir i gael eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Wrth osod cyllideb 2025/26 mae'r arbedion hynny sydd heb eu gwneud wedi'u hadolygu i asesu a oes angen cynyddu cyllidebau ar gyfer arbedion heb eu cyflawni yn 2025/26. Mae cynllun yn ei le ar gyfer 2025/26 i fynd i'r afael â'r arbedion sydd heb eu cyflawni yn 2024/25.

9.6 Mae'r sefyllfa o ran y cronfeydd wrth gefn wedi'i nodi yn adran 4.6 yr adroddiad. Rwyf yn argymell bod y Cyngor yn cynyddu ei gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi i gadw'r gronfa yn gymesur â'i gyllideb net, sydd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac i leihau'r defnydd posibl pellach o gronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb yn 2025/26. Mae'n bwysig diogelu lefelau presennol y cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi i ddiogelu'r Cyngor rhag risgiau posibl.

9.7 Yn sgil dyddiad hwyr iawn ar gyfer y Setliad Terfynol, argymhellir bod y Cabinet a'r Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid, i addasu'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a nodir yng nghynigion y gyllideb gan hyd at £500,000. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi nad yw'n debygol y bydd unrhyw newid sylweddol, fodd bynnag mae'n syniad da cytuno ar gynllun wrth gefn.

9.8 Mae'n bwysig nodi pe na bai'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu derbyn, bod yn rhaid cyflwyno cynigion amgen er mwyn cyflawni cyfrifoldeb statudol y Cyngor i osod cyllideb fantoledig.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o lunio cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a chytuno arnynt mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai peidio â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posib' eraill yn golygu risg na fyddai cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

10.2 Mae rhagweld pwysau costau yn parhau i fod yn dasg heriol wrth lunio cynigion ar gyfer y gyllideb. Mae'r pwysau o ran costau wedi'u sbarduno gan gynnydd yn y galw am wasanaethau a gan gynnydd yn y costau. Er gwaethaf defnyddio'r rhagolygon diweddaraf o'r galw wrth gyfrifo'r gyllideb, mae'r rhain yn amcangyfrifon ac mae risgiau'n parhau o ran y gall y gwariant fod yn fwy na'r cyllidebau er bod y cyllidebau wedi'u cynyddu yn y flwyddyn ariannol newydd. Yn arbennig, mae yna alw penodol am wasanaethau statudol o fewn gofal cymdeithasol, addysg a gwasanaethau gwastraff. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn lleihau effaith risgiau o'r fath yn ystod y flwyddyn, ac mae dull doeth wedi'i fabwysiadu gydag arian at raid wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

10.3 Mae cyfanswm yr arbedion arfaethedig ar gyfer cyllideb 2025/26 yn dod i £4.170 miliwn ond nid yw hynny'n swm sylweddol, yn enwedig ar ôl arbedion o £7.683 miliwn (ac eithrio ysgolion) a gyflawnwyd wrth osod cyllideb 2024/25. Mae'r arbedion sydd wedi'u rhestru wedi cael sgôr Coch, Oren a Gwyrdd yn seiliedig ar asesiad cychwynnol o rwyddineb cyflawni'r arbedion arfaethedig ac mae hyn i'w weld yn Atodiad 4 (sylwch, nid yw hyn yn asesu'r risg i ddarpariaeth y gwasanaeth). Bydd y Tîm Cyllid yn parhau i olrhain a mesur arbedion gan sicrhau y gellir adrodd ar gynnydd yn rheolaidd ac ar lefel briodol o fanylder mewn cyfarfodydd amrywiol. Mae hyn yn cryfhau effeithiolrwydd rheolaeth ariannol y Cyngor ac yn sicrhau y gellir gweithredu'n brydlon i leihau unrhyw effaith os daw swyddi'n wag yn ystod y flwyddyn.

10.4 Er gwaethaf monitro costau'n ofalus a thracio cynigion arbedion, yn y pen draw os bydd gorwariant sylweddol yn ystod y flwyddyn yn 2025/26, ac os na fydd cynigion arbedion yn gallu cael eu cyflawni, bydd hyn yn arwain at ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn yn 2025/26. Bydd hyn yn lleihau lefelau cynaliadwyedd a gwydnwch ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'r sefyllfa ariannol yn hynod heriol ac mae rheolaeth ariannol effeithiol a disgybledig yn ystod y flwyddyn ar ran yr holl ddeiliaid cyllideb yn hanfodol bwysig.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.